# BEDO AEDDREN (fl. c. 1500), bardd

**Enw:** Bedo Aeddren
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Idwal Lewis

Trigai yn Aeddren, ger Llangwm Dinmael, sir Ddinbych, a sonia ef ei hun am Langwm a Dinmael yn ei waith. Ceir amrywiaeth yn y llawysgrifau yngl  n ag enw ei drigfan - Aerddrem, Aurdrem, Eurdrem, Oerddrym. Y mae'n debyg iddo hefyd ddal neu etifeddu ffarm Coed y Bedo, ger Aeddren. Dywaid rhai mai brodor o Lanfor, Meirionnydd, ydoedd.

Yr oedd yntau, fel Bedo Brwynllys, yn ddilynydd i Dafydd ap Gwilym fel bardd, a chanodd ganeuon serch yn y dull traddodiadol. Cymysgir gwaith Brwynllys ac yntau yn fynych yn y llawysgrifau, ac y mae'n amhosibl penderfynu pa un ohonynt yw gwir awdur aml ddarn. Claddwyd ef, meddir, yn Llanfor, Meirionnydd.

## Awdur

**Idwal Lewis**

## Ffynonellau


Robert Stephen, *The poetical works of Bedo Aerddnem Bedo Brwynllys and Bedo Phylip Bach* (Bangor 1907), traethawd M.A. anghyhoeddedig


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Bedo Aeddren

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q4879327


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu